***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2017 No. 633

# Gorchymyn Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 1 a Darpariaethau Trosiannol) 2017

**Enwi a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 1 a Darpariaethau Trosiannol) 2017.

(2) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "Deddf 1979" ("*the 1979 Act*") yw Deddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979(**1**);

ystyr "Deddf 1990" ("*the 1990 Act*") yw Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990(**2**);

ystyr "Deddf 2016" ("*the 2016 Act*") yw Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016;

ystyr "y Gofrestr" ("*the Schedule*") yw'r Gofrestr o henebion a lunnir ac a gynhelir o dan adran 1 o Ddeddf 1979.

(**1**) 1979 p. 46.
(**2**) 1990 p. 9.